

## Y Llyfr gan Pegi Talfryn – fersiwn y Gogledd

“Does dim pwynt i bethau Cymraeg. Dim ond pethau drwg sy’n dŵad o Gymru.”

Saesneg roedd Mam yn siarad, wrth gwrs.

Roedd **bysedd** Debra yn **brifo**. Roedd hi wedi codi hen lyfr o’r silff dop, ond roedd y llyfr wedi **llosgi** ei bysedd. Mi wnaeth Mam ddŵad i mewn pan wnaeth hi glywed Debra yn **gweiddi**.

Mi wnaeth Mam **lapio’r** llyfr mewn blanced. “Dydy’r llyfr yma ddim i ti,” meddai hi. Roedd Debra yn gwybod o edrych ar wyneb Mam doedd ‘na ddim siawns cael dysgu mwy.

Roedden nhw’n byw yn Newcastle upon Tyne. Roedd Debra yn 16 oed. Roedd Mam, Janet Williams, yn dŵad o Gymru, ond doedd hi ddim isio siarad am y lle. **Doedd hi byth yn mynd** i Gymru a byth yn siarad am y teulu yno. Doedd Debra ddim yn gwybod pwy oedd ei thad hi.

Y diwrnod hwnnw mi wnaeth Debra benderfynu dysgu Cymraeg. Roedd hi’n ddigon hawdd, efo popeth ar-lein.

Mi wnaeth Mam ddechrau mynd yn sâl eto. Yr hen gancr wedi dŵad yn ôl. Roedd Debra yn lwcus o gael teulu Alice, ei ffrind gorau hi, i helpu. Ar ôl i Mam fynd i’r hosbis, mi aeth Debra i fyw efo teulu Alice. Yn anffodus, wnaeth Mam ddim gweld Debra yn cael ei lefel ‘A’.

Roedd y gwaith o glirio’r tŷ yn anodd. Roedd Debra yn gwybod lle roedd Mam yn cadw’r papurau pwysig, ac roedd hi’n medru ffeindio’r **dystysgrif geni** ar gyfer y **cynhebrwng**. Mi gaeth hi sioc o weld mai Sioned Williams oedd enw Mam, ddim Janet. Roedd hi’n dŵad o bentre Cwrt-y-Cadno yn Sir Gaerfyrddin.

Mi wnaeth Debra ffeindio’r llyfr mewn blanced hefyd. Roedd hi’n rhy ofnus i dynnu’r blanced, ond doedd hi ddim isio taflu’r llyfr.

Mi wnaeth hi benderfynu mynd i Brifysgol Aberystwyth a chario ymlaen efo dysgu Cymraeg. Mi aeth hi i **neuadd** Gymraeg.

Doedd hi ddim wedi siarad Cymraeg efo neb o’r blaen. Roedd hi’n gwybod yn ei phen hi sut i siarad, ond doedd y geiriau ddim isio dŵad allan. Ond o’r diwedd mi wnaeth popeth glicio. Mi wnaeth hi ffrindiau, a siarad Cymraeg efo nhw. Ei ffrind gorau yno oedd Bethan.

Roedd gan Bethan gar, ac roedd hi’n hapus i fynd â Debra i weld Cwrt-y-Cadno, os oedd Debra’n talu am y petrol. Mi wnaeth Debra ddysgu fod **dewin** enwog o’r 19fed ganrif, Dr. John Harries, yn dŵad o’r lle.

Diwedd tymor. Roedd Debra wedi penderfynu mynd yn ôl i Newcastle i aros efo Alice.

Mi wnaeth hi’r siopa munud olaf, a dechrau pacio i fynd.

Yn sydyn, mi wnaeth hi **sylweddoli** rhywbeth. Roedd hi’n siarad Cymraeg. Roedd hi’n byw bywyd Cymraeg. Roedd hi’n teimlo’n barod rŵan i edrych ar y llyfr.

Mi wnaeth hi dynnu'r llyfr o'r blanced. Doedd o ddim yn llosgi ei bysedd hi. Mi wnaeth hi ddechrau darllen:

*Mae'r llyfr hwn yn perthyn i Dr. John Harries ac i blant a disgynyddion Dr. Harries.*

Doedd dim angen i Debra ddarllen. Roedd hi'n teimlo'r pŵer yn dŵad i mewn i'w chorff hi. Roedd hi'n gweld **cysgodion** a wynebau doedd ddim yno o'r blaen. Roedd hi'n clywed **lleisiau** yn y gwynt. O'r diwedd roedd hi'n gwybod pwy - a beth - oedd hi.

### **Geirfa**

bysedd - *fingers*

brifo - *to hurt*

llosgi - *to burn*

gweiddi - *to shout, to yell*

lapio - *to wrap*

Doedd hi byth yn mynd - *She never went*

tystysgrif geni - *birth certificate*

cynhebrwng - *funeral*

neuadd - *hall*

dewin - *sorcerer, wizard*

sylweddoli - *to notice*

disgynyddion - *descendants*

cysgodion - *shadows*

lleisiau - *voices*